Y blaidd barus

Caredigrwydd / Amynedd / Gonestrwydd

Unwaith, roedd dyn yn byw ar ei ben ei hun yn y pentref. Dyn caredig iawn ydoedd. Byddai adar ac anifeiliaid o gwmpas y pentref yn galw i weld y dyn caredig. Byddai yntau yn sgwrsio efo'r adar a'r anifeiliaid ac yn rhoi bwyd iddyn nhw. Ond roedd ganddo un ffrind arbennig. Byddai hwnnw yn dod heibio bob awr ginio. Pwy oedd y ffrind arbennig hwn tybed? Blaidd! Ie blaidd! Bob dydd byddai'r dyn caredig yn rhoi pryd o fwyd i'r blaidd.

Un diwrnod roedd y dyn caredig wedi paratoi cinio pan glywodd sŵn cwynfanus o'r caeau cyfagos. Aeth allan o'r tŷ ar frys, gan adael y bwyd ar y bwrdd. Aeth i chwilio beth oedd yn gwneud y sŵn cwynfanus. Daeth y blaidd heibio'r tŷ yn ôl ei arfer. Aeth i mewn i chwilio am y dyn caredig. Aeth i bob ystafell yn y tŷ ond doedd yna neb yn unman. Galwodd arno ond doedd neb yn ateb. Aeth i'r gegin fach a dyna lle roedd y cinio wedi ei baratoi ar y bwrdd. "Ym... ym mae hwn yn edrych yn flasus iawn," meddai wrtho'i hun. "Mi ydw i bron a'i fwyta ar un llowciad."

Edrychodd o'i gwmpas. Aeth allan i'r ardd ond doedd dim golwg o'r dyn caredig yn unman. Aeth yn ôl i'r gegin fach. Edrychodd eilwaith ar y bwyd blasus ar y bwrdd.

"Beth wnâi?" gofynnodd y blaidd iddo'i hun. "Ddylwn i fwyta'r bwyd blasus yma? Ynteu ddylwn i aros nes bydd y dyn caredig wedi dychwelyd?"

Bu'n pendroni am ychydig. Aeth allan i'r drws unwaith eto ond doedd dim golwg o neb yn unman. Rhedodd yn syth i'r gegin fach ac ymhen dim roedd wedi llowcio'r bwyd i gyd. Rhedodd allan drwy'r drws, i'r ardd, ar draws y caeau ac i fyny'r bryn i'w gartref.

Pan ddychwelodd y dyn caredig gwyddai yn iawn beth oedd wedi digwydd. Roedd y blaidd barus wedi bod yno ac wedi bwyta'i ginio i gyd – bob tamaid. Doedd dim briwsionyn ar ôl.

Am ddyddiau bu'r dyn caredig yn disgwyl i'r blaidd ddod draw i'w weld. Ond doedd dim golwg o'r blaidd. Gwyddai'r blaidd ei fod wedi gwneud drwg ac roedd yn ofni dychwelyd i weld y dyn caredig.

Un diwrnod , pan oedd y dyn caredig yn paratoi cinio yn y gegin fach clywodd sŵn wrth y drws. "Pwy sydd yna, tybed?" gofynnodd. Aeth at y drws a phwy oedd yno ond y blaidd barus.

Doedd y blaidd ddim yn gallu edrych ym myw llygaid y dyn caredig. Cadwodd ei ben i lawr. "Tyrd i mewn," meddai'r dyn caredig wrtho. "Rwy'n gweld dy fod ti'n teimlo'n euog. Ond paid ti â phoeni. Rydw i yn dal i fod yn ffrind i ti."

"O diolch yn fawr i ti," meddai'r blaidd, "mae'n wir ddrwg gen i fy mod wedi dwyn dy ginio di."

"Y rheswm mod i yn dal i fod yn ffrindia efo ti ydi dy fod wedi bod yn ddigon dewr i ddod yn ôl i ymddiheuro" meddai'r dyn caredig wrtho.

Byth ar ôl hynny bu'r dyn caredig a'r blaidd yn ffrindiau agos. Bob dydd o'r flwyddyn byddai'r blaidd a'r dyn caredig yn cael cinio efo'i gilydd.

O Dduw, pan fydda i wedi gwneud drwg
Wnei di fy helpu i ddweud 'Mae'n ddrwg gen i'.
Amen.

✦ Ydych chi'n credu fod y blaidd wedi bod yn ddewr?

✦ Pan fyddwch chi wedi gwneud drwg beth fyddwch chi'n ei wneud?